
Ymagwedd at gostau dros ben gormodol o dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang

Diwygiad i'r Amodau Gwasanaeth Cyffredinol

FERSIWN ANGHYFRINACHOL

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Tachwedd 2021

1. Trosolwg

- 1.1 Yn y datganiad hwn, rydym yn nodi ein rhesymau dros newid yr Amodau Gwasanaeth Cyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i BT ddarparu gwasanaethau band eang cyffredinol. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â sut y dylai BT ymdrin â chostau dros ben gormodol o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang.

Pam yr ydym yn gwneud y newid hwn

- 1.2 Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth ar gyfer USO band eang, i roi'r hawl i bobl ofyn am gysylltiad band eang digonol a fforddiadwy i'w cartrefi a'u busnesau. O dan y ddeddfwriaeth, os nad yw cost darparu cysylltiad penodol yn fwy na £3,400 heb gynnwys TAW, nid oes rhaid i'r cwsmer dalu i'r cysylltiad gael ei adeiladu. Os yw'r costau'n fwy na hyn, gall y cwsmer ddewis i dalu'r gwahaniaeth.
- 1.3 Yn 2019, gwnaethom ddynodi BT fel darparwr gwasanaeth cyffredinol a phennu'r amodau sy'n berthnasol iddo. I gyfrifo costau cysylltiad, roedd yr amodau hyn yn mynnu bod yn rhaid i BT rannu costau'r rhwydwaith a all wasanaethu anheddau lluosog. Mae'r costau wedi'u dosrannu yn seiliedig ar dybiaeth y bydd o leiaf 70% o anheddau cymwys mewn ardal yn cymryd cysylltiad yn y pen draw. Os nad yw'r gost fesul safle, ar y sail hon, yn fwy na £3,400 (ac eithrio TAW), mae'n rhaid i BT ddarparu'r cysylltiad am ddim (ac eithrio'r taliadau cysylltu a rhent safonol). Fodd bynnag, os yw'r gost fesul safle yn fwy na £3,400 (ac eithrio TAW) ar y sail hon, mae'n rhaid i BT, ar gais, ddarparu dyfynbris i gwsmeriaid am y costau ychwanegol ar gyfer eu safle (sef y gost a gyfrifwyd fesul safle llai £3,400) mewn modd amserol. Yna, mae'n rhaid i BT ddarparu cysylltiad os yw'r cwsmer yn fodlon talu'r gost ychwanegol hon.
- 1.4 Ym mis Hydref 2020, gwnaethom gychwyn ymchwiliad oherwydd pryderon efallai nad oedd BT yn cydymffurfio â'n rheolau mewn perthynas â'i ymagwedd at gyfrifo costau dros ben. Roedd ymagwedd BT yn golygu nad oedd yn dosrannu costau seilwaith a rennir yn y ffordd roeddem yn ei disgwyl, gan olygu y gofynnwyd i rai cwsmeriaid dalu costau dros ben sy'n faterol uwch.
- 1.5 Yn ystod yr ymchwiliad darparodd BT dystiolaeth i ddangos, pan fydd cost adeiladu cysylltiad yn uchel iawn a bod costau dros ben yn sylweddol uwch na £3,400, bod risg o effaith anghymesur ar gost cyllido'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.
- 1.6 A ninnau wedi ystyried pryder BT, rydym wedi penderfynu newid yr Amodau Gwasanaeth Cyffredinol. Mae'r newid hwn yn golygu, os yw'r gost ychwanegol fesul safle yn fwy na £5,000 (ac eithrio TAW), y gall BT aros nes bod ganddo gytundeb i dalu cyfanswm y gost dros ben gan gynnwys yr holl gostau rhwydwaith a rennir cyn dechrau adeiladu, yn hytrach na dechrau adeiladu lle mae un cwsmer yn fodlon talu'r gost ychwanegol am eu safle penodol. Bydd hyn yn lliniaru'r risg o effaith anghymesur ar gostau ariannu'r USO. Os yw'r gost ychwanegol fesul safle yn llai na £5,000 (ac eithrio TAW) nid oes unrhyw newid i'n hamodau.

1.7

Beth rydym wedi penderfynu

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad, rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynigion heb newid:

Pan fydd costau dros ben yn uchel iawn, gall BT aros nes bod ganddo gytundeb i adennill y cyfanswm costau dros ben cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu. Pan fydd y gost ychwanegol fesul safle (hynny yw, y gost a gyfrifwyd fesul safle llai £3,400) yn fwy na £5,000 (ac eithrio TAW), gall BT aros nes bod ganddo gytundeb i dalu cyfanswm y gost dros ben gan gynnwys yr holl gostau rhwydwaith a rennir cyn dechrau adeiladu, yn hytrach na dechrau adeiladu lle mae un cwsmer yn fodlon talu'r gost ychwanegol am eu safle penodol. Gall un neu fwy o gwsmeriaid dalu holl gostau ychwanegol y gwaith adeiladu, ond rydym yn disgwyl mai ychydig iawn o gwsmeriaid fydd yn fodlon talu mwy na £5,000 (ac eithrio TAW) i dderbyn cysylltiad band eang wedi'i uwchraddio o dan y US0. Felly, mae'r newid hwn yn debygol o gael effaith gyfyngedig iawn ar gwsmeriaid ond fe fydd yn lleihau'r risgiau o ran adennill costau.

Dim newidiadau pan fydd y costau dros ben yn £5,000 (heb gynnwys TAW) neu'n is. Os yw'r gost ychwanegol fesul safle yn £5,000 (ac eithrio TAW) neu'n is, mae'n rhaid i BT ddarparu cysylltiad os yw'r cwsmer yn cytuno i dalu'r gost dros ben.

- 1.8 Er y bydd cwsmeriaid a fydd yn elwa o o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn y dyfodol, bydd safleoedd o hyd lle bydd y costau darpariaeth yn parhau'n uchel iawn. Mae'r cwsmeriaid hyn yn annhebygol o elwa o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol waeth beth fydd yr ymagwedd at gostau a rennir. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r diwydiant a Llywodraeth y DU i ymchwilio i ddatrysiadau technoleg a chyllido amgen er mwyn i safleoedd sy'n wynebu costau dros ben uchel iawn dderbyn cysylltiad band eang digonol.
- 1.9 Nid ydym yn gwneud unrhyw newid arall i'r rheolau presennol ar sut y mae'n rhaid i BT asesu costau cysylltiadau ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Nid ydym yn bwriadu ychwaith i wneud yr un newid ar gyfer KCOM, o ystyried argaeledd gwasanaethau band eang digonol yn ardal Hull. Nodwn, hyd yma, nad yw KCOM wedi derbyn unrhyw geisiadau gan gwsmeriaid sy'n gymwys am y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.
- 1.10 Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud, a'n sail resymegol drostynt, yn y ddogfen lawn.